

476/60

HANES – HI6

UNED 6 (Asesiad Synoptig)

ASTUDIAETH FANWL 7

Y CHWYLDRO FFRENGIG, tua 1774-1795

A.M. DYDD GWENER, 23 Mehefin 2006

50 munud (o arholiad 1 awr 40 munud)

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **un** cwestiwn.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd pob cwestiwn.

Mae'n bosibl fod y ffynonellau neu'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddodedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.

UNED 6**ASTUDIAETH FANWL 7****Y CHWYLDRO FFRENGIG, tua 1774-1795**

Atebwch un cwestiwn.

Atgoffir ymgeiswyr y dylai eu hatebion ddangos ymdriniaeth synoptig o'r cwestiwn sy'n dwyn ynghyd, lle bo'n addas, agweddu gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, crefyddol a diwylliannol ar y testun.

1. Y Gwrth-chwyldro, tua 1774-1795

Astudiwch y ddwy ffynhonnell isod ac atebwch y cwestiwn sy'n eu dilyn.

Ffynhonnell A

‘Yn nhrefgordd Saint-Pierre, ymddangosodd mintai fawr o ddynion, wedi'u harfogi â gynnau, placuriau (*scythes*) ac yn y blaen, a phob un ohonynt yn gwisgo ysnodenni (*cockades*) gwyn a symbolau crefyddol eraill. Roedd pob un ohonynt yn gweiddi, “Hir oes i'r Brenin ac i'n Hoffeiriad Daionus! Rydyn ni eisiau ein Brenin, ein hoffeiriad a'r hen gyfundrefn!” Ac roeddynt yn gweiddi: “Lladder pob gwladgarwr.” Daeth y fintai gyfan ymlaen, a hithau'n arswydus o fawr, gan hyrddio ei hun ar warthaf y gwladgarwyr, y rhai oedd wedi dod ynghyd i wrthsefyll eu hymgais. Cafodd llawer eu lladd ganddynt ac eraill eu gwneud yn garcharorion a'r gweddill eu gyrru ar ffo.’

[Rhan o adroddiad i'r llywodraeth gan ddau ffoadur (*refugee*) o'r Vendée, yn disgrifio gweithredoedd mintai nodwediadol o wrthryfelwyr y Vendée (Mawrth 1793)]

Ffynhonnell B

‘Yn ystod y Chwyldro roedd mudiadau gwirioneddol boblogaidd i'w cael y tu allan i Baris, mudiadau ymreolaethol (*autonomous*) o ran eu cychwyniad, eu hamcanion a'u harweinyddiaeth ac, er gwaethaf honiadau a chyhuddiadau llywodraethau chwyldroadol, heb eu dylanwadu gan bendefigion nac offeiriad, nac wedi'u rheoli gan dywysogion alltud a'u cynghareiriad chwaith. Oherwydd hynny mae'n well gan lawer o haneswyr bellach ddisgrifio'r mudiadau hyn fel Chwyldro Gwrthwynebol (*Anti-Revolution*) yn hytrach na Gwrth-chwyldro (*Counter-Revolution*), am mai gweithredu yn erbyn y Chwyldro yr oeddynt yn hytrach nag o blaid adfer strwythur yr *ancien régime*.’

[James Roberts, hanesydd academiaidd ac arbenigwr ar hanes y Chwyldro Ffrengig, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr arbenigol, *The Counter-Revolution in France 1787-1839* (1990)]

Pa mor ddilys yw'r ddwy ffynhonnell hyn fel tystiolaeth i hanesydd sy'n dehongli'r Gwrth-chwyldro yn ystod y cyfnod 1774-1795? [80]

2. Datblygiadau gwleidyddol a chyfansoddiadol, tua 1774-1795

Astudiwch y ddwy ffynhonnell isod ac atebwch y cwestiwn sy'n eu dilyn.

Ffynhonnell A

‘Cawsoch eich hysbysu yn ddiamau fy mod wedi derbyn y Cyfansoddiad a byddwch yn gwybod y rhesymau a roddais i’r Cynulliad; ond ni fydd y rheiny’n ddigon i chi. Felly rwyf am i chi gael gwybod fy holl resymau. Mae Ffrainc yn y fath gyflwr fel dichon ei bod yn agosáu at ymddatodiad (*disintegration*) llwyr. Yr ateb yw rhoi diwedd ar raniadau pleidiol (*partisan divisions*) ac adfer awdurdod y llywodraeth. Ond er mwyn sicrhau hynny, nid oes ond dwy ffordd: grym neu gymod (*reconciliation*).’

[Rhan o femorandwm cyfrinachol Louis XVI at ei frawd, yn sôn am ei resymau dros dderbyn y Cyfansoddiad (25 Medi 1791)]

Ffynhonnell B

‘Pan fo pobl ddysgedig yn meddwl am y Chwyldro Ffrengig, digwyddiadau 1789 ac yn arbennig Gweriniaeth Jacobinaidd y Flwyddyn II sy’n aros fwyaf yn y cof. Roedd chwyldroadwyr diweddarach yn Ffrainc yn ystyried gweriniaeth gyntaf y bobl yn ysbrydoliaeth ar gyfer pob gwrthryfel a ddigwyddodd wedyn. Iddynt hwy roedd yn gyfnod nad oedd modd ei fesur yn ôl meinu prawf beunyddiol (*everyday*) y natur ddynol.’

[Eric Hobsbawm, hanesydd Marcsaidd academaidd ac arbenigwr ar hanes Ewrop fodern, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr cyffredinol, *The Age of Revolution 1789-1848* (1975)]

Pa mor ddilys yw'r ddwy ffynhonnell hyn fel tystiolaeth i hanesydd sy'n dehongli datblygiadau gwleidyddol a chyfansoddiadol yn ystod y cyfnod 1774-1795? [80]